

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/12376>

Dyddiad: Dydd Gwener, 16 Gorffennaf
2021

Amser: 09.30 – 10.54

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Jack Sargeant AS (Cadeirydd) Luke Fletcher AS Joel James AS Buffy Williams AS
Staff y Pwyllgor:	Gareth Price (Clerc) Mared Llwyd (Ail Clerc) Sian Giddins (Dirprwy Clerc)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

2 Cylch gwaith y Pwyllgor

Nododd yr Aelodau gylch gwaith a chyfrifoldebau'r Pwyllgor.

3 Deisebau newydd

Yn unol â'r arfer a fabwysiadwyd gan Bwyllgorau Deisebau blaenorol, cytunodd y Pwyllgor y gwneir cais am ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, neu sefydliad perthnasol arall, cyn ei drafodaeth gyntaf o ddeisebau newydd yn y dyfodol.



3.1 P-06-1158 Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ymateb i'r materion a godir yn y ddeiseb.

3.2 P-06-1159 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Cefnogodd yr achos hwn yn ystod ei ymgyrch etholiadol.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC).

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol i ofyn am ymateb i'r materion a godir yn y ddeiseb ac amserlen ar gyfer y gwaharddiad arfaethedig.

3.3 P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i ofyn am ymateb i'r ddeiseb.

3.4 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i ysgrifennu at y Comisiynydd Plant i gael ei hymateb i'r ddeiseb.

3.5 P-06-1162 Rhannu Sir Rhondda Cynon Taf ac uno Cwm Cynon â Sir Merthyr

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n Gynghorydd ar Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd, gan nad oedd llawer o gamau y gallai eu cymryd ar y mater a godwyd, i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

3.6 P-06-1163 Dylid ymestyn y fwsariaeth STEMM ôl-raddedig i bob myfyriwr MSc yng Nghymru

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n beiriannydd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol:

- Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ofyn am ymateb i'r mater a godir gan y ddeiseb; a'r
- Ganolfan Technolegau Amgen yn gofyn a yw wedi ceisio cael ei dynodi'n Sefydliad Addysg Uwch gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cwrs hwn a chyrsgiau eraill, neu a yw'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol.

3.7 P-06-1164 Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i ofyn am ei ymateb i'r mater a godir yn y ddeiseb.

3.8 P-06-1165 Dylid gwahardd gwerthu ac yfed alcohol yn y Senedd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd o gofio mai mater i'r Comisiwn yw rheoli ystâd y Senedd. Cytunodd y Pwyllgor hefyd nad oedd llawer o gamau y gallai eu cymryd ar y ddeiseb o gofio ei gylich gwaith, a chytunodd, felly, i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am godi'r mater.

3.9 P-06-1166 Darparu grantiau di-dreth i bobl sy'n gweithio yn y celfyddydau a darparu cyllid grant i leoliadau celfyddydol.

Datganodd Buffy Williams AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon i ofyn am ymateb i'r materion a godir yn y ddeiseb.

3.10 P-06-1167 Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon i ofyn am ymateb i'r materion a godir.

3.11 P-06-1168 Ystyriwch ail-wneud y flwyddyn academiaidd gyfredol hon ar gyfer myfyrwyr ar draws Cymru

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n llywodraethwr ysgol.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n llywodraethwr ysgol.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cynigion yn flaenorol i ddisgyblion ailadrodd y flwyddyn ysgol a'r cynllun adfer amgen y mae wedi'i gyhoeddi cytunodd y Pwyllgor i:

- ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar y materion a godir yn y ddeiseb; ac
- unwaith y daw ymateb gan y Gweinidog, cytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

3.12 P-06-1169 Gadewch i ddinasyddion Cymru bleidleisio ar gyfyngiadau symud

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a nododd nad oedd llawer o gamau y gallai eu cymryd ar y materion a godir yn y ddeiseb. Felly, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

3.13 P-06-1170 Adolygiad annibynnol di-oed o'r broses ddethol Haen 1 a Haen 2 yn Uwch-gynghrair Menywod Cymru

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n gyd-gyflwynydd ar [ddatganiad barn](#) perthnasol.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a Chymdeithas Bêl-droed Cymru i ofyn am eu barn ar y materion a godir yn y ddeiseb.

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

4.1 P-05-914 Mynediad Cyfartal i Ofal Iechyd ar gyfer yr Anabl

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a dderbyniwyd a'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor blaenorol a chytunodd i lunio adroddiad byr ar y materion a godir yn y ddeiseb.

4.2 P-05-974 Dylid sicrhau bod technoleg yr aelodau prosthetig a ddarperir gan GIG Cymru cystal â'r hyn a geir yng ngweddill y DU

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a dderbyniwyd a chytunodd fod y ddeiseb wedi cyflawni ei nod o sicrhau bod technoleg prosthetig yn gyfartal â'r hyn sydd ar gael o

fewn GIG Lloegr a'r Alban. Cytunodd felly i gau'r ddeiseb a llongyfarch y deisebydd ar y canlyniad cadarnhaol a gafwyd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i lunio astudiaeth achos i ddangos sut y gall deisebau wneud gwahaniaeth.

4.3 P-05-1078 Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a dderbyniwyd, a nododd fod y ddeiseb wedi'i thrafod yn y Cyfarfod Llawn yn y Senedd ddiwethaf a chytunodd i ddiolch i'r deisebydd am godi'r mater ac i rannu atgrynhoad o'r ddadl gyda'r deisebydd. Roedd yr Aelodau'n cofio ymgyrchoedd cryf dros fynediad 24 awr at wasanaeth Iechyd Meddwl yn ystod ymgyrch yr etholiad - a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y mater cysylltiedig hwnnw.

4.4 P-05-1147 Dylid ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ddarparu addysg fyw/addysg wedi'i recordio bob dydd i bob disgybl nad yw'n dychwelyd i'r ysgol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a dderbyniwyd a nododd fod y Gweinidog ar y pryd wedi datgan yn glir mai mater i'r ysgol a'r awdurdod lleol yw penderfyniadau ynghylch gwersi byw neu wersi wedi'u recordio. O ganlyniad, nid oedd llawer o gamau pellach y gallai eu cymryd. Cytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am godi'r mater ac awgrymu eu bod yn cysylltu â'u hysgol neu awdurdod lleol yn uniongyrchol os oeddent yn dymuno bwrw ymlaen â'r mater.

4.5 P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law a daeth i'r casgliad, gyda gofid, nad oedd llawer o gamau pellach y gallai eu cymryd ar y mater ac felly cytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

4.6 P-05-1092 Peidiwch â gohirio etholiadau mis Mai 2021

Gan fod yr amserlen a nodir yn y ddeiseb wedi pasio, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

4.7 P-05-1150 Rhowch wyliau ardrethi busnes i safleoedd cartrefi gwyliau yng Nghymru, fel yn Lloegr

Gan fod y camau yr oedd y ddeiseb yn galw amdanynt yn cael eu rhoi ar waith, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

4.8 P-05-1151 Dylid pennu dyddiad ar gyfer ailddechrau gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer babanod a phlant bach

Gan fod y camau yr oedd y ddeiseb yn galw amdanynt yn cael eu rhoi ar waith, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

4.9 P-05-1154 Dylid ailagor y sector lletygarwch yng Nghymru erbyn 12 Ebrill 2021

Gan fod y camau yr oedd y ddeiseb yn galw amdanynt yn cael eu rhoi ar waith, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

4.10 P-05-1156 Dylid cyfateb y cyllid ar gyfer busnesau bach yn ystod y cyfyngiadau symud gyda Lloegr – gan gynnwys y grant ailgychwyn

Gan fod y camau yr oedd y ddeiseb yn galw amdanynt yn cael eu rhoi ar waith, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

4.11 P-05-1157 Caniatáu i ysgolion asesu myfyrwyr fel y maent yn gweld yn addas, gan gynnwys defnyddio asesiadau llyfr agored

Gan fod yr amserlen a nodir yn y ddeiseb wedi pasio, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

5 Papurau i'w nodi

5.1 Adroddiad gwaddol Fforwm y Cadeiryddion blaenorol

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

5.2 Adroddiad gwaddol y pwyllgor a oedd yn rhagflaenu

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

5.3 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

5.4 P-05-886 Stopio'r Llwybr Coch (coridor yr A55/A494)

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi datgan ei gefnogaeth i'r llwybr.

Nododd y Pwyllgor y datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd sy'n cadarnhau y bydd adolygiad o'r llwybr yn cael ei gynnal. O ystyried [argymhelliad y Pwyllgor](#) i gynnal adolygiad cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7 ac eitem 8 o'r cyfarfod.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Gweithdrefnau pwyllgorau a'u ffyrdd o weithio

Trafododd y Pwyllgor ei weithdrefnau a'i ffyrdd o weithio a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu o'i benderfyniad i gadw'r trothwyon presennol:

- gofyn am 50 o lofnodion er mwyn i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb; a
- gofyn am 10,000 o lofnodion cyn i'r Pwyllgor ystyried gwneud cais am ddadl ar y ddeiseb yn y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r trothwyon hyn maes o law er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n briodol.

8 Dull gweithredu strategol o ran cylch gwaith y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor sut roedd am ymdrin â'i ddull gweithredu a chytunodd ar y canlynol:

- canolbwyntio ar faterion lefel uchel lle y gallai'r Pwyllgor gynorthwyo i lunio polisi'r Llywodraeth; ac
- ymgymryd â gwaith allgymorth ac ymgysylltu pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.